



Themau - Themes

Amser amherffaith BOD Roedd hi ...
Imperfect BOD She was ...

Patrymau Iaith - Teaching patterns

Yr Amser Amherffaith - The Imperfect Tense

Dyn ni'n defnyddio'r amser yma i gyfeirio at y gorffennol, *you were...* Mae'n dod o 'BOD', ac yn cael ei ddefnyddio gyda hoffi, byw, meddwl, gwybod, nabod ac eisiau pan dyn ni'n defnyddio'r gorffennol yn Saesneg.

We use this tense, when referring to the past, for something you 'were' doing. It comes from the verb 'bod', and it is often used with the verbs hoffi, byw, meddwl, gwybod, nabod and eisiau where in English we use the past tense.

Ro'n i'n hoffi	<i>I liked</i>
Ro'n i'n byw	<i>I lived</i>

Byddwch chi'n clywed 'Ro'n i', ond efallai yn gweld a chlywed 'Roeddwn i'.
You will hear 'Ro'n i', but may see and hear 'Roeddwn i'.

Ro'n i	<i>I was</i>
Ro't ti	<i>You were</i>
Roedd e/hi/Ann	<i>He/She /Ann was</i>
Roedd y plant	<i>The children were</i>
Ro'n ni	<i>We were</i>
Ro'ch chi	<i>You were</i>
Ro'n nhw	<i>They were</i>

I ofyn cwestiwn mae angen colli'r 'R'
When asking a question the 'R' is dropped.

O'ch chi'n aros mewn gwesty? *Were you staying in a hotel?*

Yn y negyddol mae 'D' yn lle 'R' ac mae 'ddim' yn dilyn.
In a negative sentence the 'R' is replaced with a 'D' and 'ddim' added.

Doedd Tom ddim eisiau siopa *Tom didn't want to shop*

Esiampplau ychwanegol - Extra examples

Atebion - Answers

O'ch chi'n aros mewn gwesty? O'n / Nac o'n
Oedd y sioe yn dda? Oedd / Nac oedd
Oedd y tocynnau'n hanner pris? O'n / Nac O'n

Nac oedd *No (he wasn't)*

Mae'r 'c' yn troi'n 'g' ar lafar yn aml.

You will hear the 'c' in 'nac' pronounced as a 'g' - 'nag' in speech

Tasgau - Tasks

Tasg sain 1 / Audio task 1

Atebwch y cwestiynau hyn.

Answer these questions.

1. Pwy oedd yn dathlu pen-blwydd?
2. Ble roedd sioe Mama Mia?
3. Oedd y tocynnau'n ddrud?
4. Sut oedd y sioe?
5. Oedd Tom eisau siopa?
6. Pwy oedd eisiau mynd ar y bws?
7. Sut oedd y tywydd?
8. Sut oedd y tywydd ar ben yr Empire State?
9. Sut oedd y bwyd?

Tasg sain 2 / Audio task 2

Atebwch y cwestiynau hyn.

Answer these questions.

1. Ble roedd y beic?
2. Oedd y beic yn newydd?
3. Beth oedd lliw'r beic?
4. Sut feic oedd e?

5. Oedd y ferch yn dal?

6. Oedd y ferch yn hen?

7. Oedd hi'n gwisgo jîns a siaced ledr?

8. Oedd clo ar y beic?

Sgript Sain 1 - Audio Script 1

- Nia:** Helo Delyth! O! Rwyf ti adre! Ble ro't ti wythnos diwetha?
- Delyth:** Helo. Ro'n ni yn Efrog Newydd.
- Nia:** Yn Efrog Newydd!
- Delyth:** Ro'n i'n dathlu fy mhen-blwydd.
- Nia:** Pen-blwydd mawr?
- Delyth:** Ie, a ro'n i a Tom eisiau mynd i weld sioe Mama Mia yn Efrog Newydd.
- Nia:** Ble oedd y sioe Mama Mia?
- Delyth:** Roedd y sioe ar Broadway, ac ro'n ni'n lwcus achos roedd y tocynnau'n hanner pris. Roedd Tom yn hapus, yn hapus iawn!
- Nia:** Oedd y sioe yn dda?
- Delyth:** O! Oedd, bendigedig. Roedd y canu a'r dawnsio yn wych.
- Nia:** Ble ro'ch chi'n aros?
- Delyth:** Ro'n ni'n aros mewn gwesty ger Times Square. Roedd y gwesty'n agos i Macy's ac ro'n i eisiau mynd i siopa i Macy's. OND doedd Tom ddim eisiau siopa o gwbl!
- Nia:** Wel, beth oedd Tom eisiau wneud 'te?
- Delyth:** Roedd e eisiau prynu tocyn i fynd ar y bws top agored am y dydd i weld Efrog Newydd i gyd.
- Nia:** Sut oedd y tywydd?
- Delyth:** O, roedd hi'n braf ac yn heulog.
- Nia:** Beth o'ch chi'n wneud yn y nos?
- Delyth:** Un noson aethon ni i fyny adeilad yr Empire State - ro'n ni'n gallu gweld Efrog Newydd i gyd! Roedd hi'n wyntog ar ben yr adeilad!
- Nia:** Sut oedd y bwyd?
- Delyth:** O, roedd y bwyd yn flasus iawn, a digon o ddewis.
- Nia:** Wel, roedd e'n drip da felly?
- Delyth:** Oedd wir.
- Nia:** Hwyl am nawr.
- Delyth:** Hwyl, *Have a good day!*

Geirfa

dathlu - *to celebrate*
arbennig - *special*
tocynnau - *tickets*
amdanat ti - *about you*
o gwmpas - *around*
chwerthin - *to laugh*
esgidiau - *shoes*
heibio - *past*
adeilad - *building*
blasus - *tasty*

Sgript Sain 2 - Audio script 2

- Plismon:** Bore da. Sarjant James sy'n siarad. Sut ga i'ch helpu chi?
- Rhodri:** Bore da. Mae rhywun wedi dwyn fy meic i.
- Plismon:** Mae rhywun wedi dwyn eich beic chi. O diar. Ble roedd y beic?
- Rhodri:** Tu allan i siop y Co-op.
- Plismon:** Oedd y beic yn newydd?
- Rhodri:** Oedd. Roedd y beic yn newydd sbon.
- Plismon:** Sut feic oedd e?
- Rhodri:** Beic mynydd coch a gwyn gyda set ddu. Gwelais i ferch yn dwyn y beic.
- Plismon:** O. Sut ferch oedd hi?
- Rhodri:** Roedd croen gwyn a gwallt du gyda hi.
- Plismon:** Oedd hi'n dal?
- Rhodri:** Nac oedd. Doedd hi ddim yn dal.
- Plismon:** Oedd hi'n ifanc?
- Rhodri:** Oedd. Roedd hi tua ugain oed.
- Plismon:** Beth oedd hi'n wisgo?
- Rhodri:** Roedd hi'n gwisgo siaced ledr ddu, jîns glas a 'sgidiau coch.
- Plismon:** Oedd clo ar y beic?
- Rhodri:** Nac oedd. Doedd dim clo ar y beic.
- Plismon:** O diar. Unrhyw beth arall?
- Rhodri:** Ie. Roedd hi'n gallu mynd yn gyflym iawn!

Geirfa

dwyn - *to steal*

tu allan i - *outside*

newydd sbon - *brand new*

gwelais i - *I saw*

croen - *skin*

tal - *tall*

ifanc - *young*

sgidiau - *shoes*

clo - *lock*

cyflym - *fast*

Atebion - Answers

Tasg sain 1 / Audio task 1

1. Pwy oedd yn dathlu pen-blwydd? Delyth oedd yn dathlu pen-blwydd.
2. Ble roedd sioe Mama Mia? Roedd sioe Mama Mia ar Broadway, yn Efrog Newydd.
3. Sut oedd y sioe? Roedd y sioe yn fendigedig!
4. Oedd Tom eisau siopa? Nac oedd. Doedd Tom ddim eisau siopa o gwbl.
5. Pwy oedd eisiau mynd ar y bws top agored? Roedd Tom eisau mynd ar y bws top agored.
6. Sut oedd y tywydd? Roedd hi'n braf ac yn heulog.
7. Sut oedd y tywydd ar ben adeilad yr Empire State? Roedd hi'n wyntog.
8. Sut oedd y bwyd? Roedd y bwyd yn flasus iawn.

Tasg sain 2 / Audio task 2

1. Ble roedd y beic? Roedd y beic tu allan i siop Co-op.
2. Oedd y beic yn newydd? Oedd, roedd y beic yn newydd sbon.
3. Beth oedd lliw'r beic? Coch a gwyn oedd lliw'r beic.
4. Sut feic oedd e? Beic mynydd oedd e.
5. Oedd y ferch yn dal? Nac oedd. Doedd hi ddim yn dal.
6. Oedd y ferch yn hen? Nac oedd. Roedd y ferch yn ifanc.
7. Oedd hi'n gwisgo jîns a siaced ledr? Oedd. Roedd hi'n gwisgo jîns a siaced ledr.
8. Oedd clo ar y beic? Nac oedd. Doedd dim clo ar y beic.